Deilliant 2: Y Model Llywodraethu a'r Strwythur Trefniadaeth a Rheoli

Mae dwy elfen allweddol i'r strwythur a gynigir i'r Consortiwm; y model llywodraethu a'r strwythur trefniadaeth a rheoli.

1. Model Llywodraethu

1.1 Cyflwyniad

Mae'r model llywodraethu arfaethedig yn cefnogi cyflawni canlyniadau a'r allbynnau dymunol o weithio â'r Consortiwm, ac yn darparu atebolrwydd addas i awdurdodau lleol a'r gymuned randdeiliaid ehangach. Penderfynwyd ar y model dethol gan y Cynllun Gweithredu a'r Strwythur.

1.2 Y Trefniadau Cyfreithiol a Llywodraethu

Wrth ddewis y model priodol, cydnabuwyd:

- bod nifer o fodelau partneriaeth neu gyd-weithio, o rai rhydd, anffurfiol heb unrhyw statws cyfreithiol i rai ffurfiol â statws cyfreithiol llawn. Mae modelau hefyd yn amrywio yn ôl nifer y partneriaid â'u statws hwy yn y sectorau preifat a chyhoeddus.
- mae materion cyfreithiol ac adnoddau dynol gan bob model o gyd-weithio. Archwiliwyd rhain yn llawn yng ngham ymchwil y prosiect er mwyn asesu'r hyfywdra a'r effeithiolrwydd posib.
- mae gan bob model a archwiliwyd gryfderau a gwendidau ac yn fodel cyflwyno posibl mewn rhai meysydd gwasanaeth.
- does dim model llywodraethu a chyfreithiol cyffredinol a fydd yn ymateb i'r cynllun gweithredu, yn gweddu i anghenion datblygol y consortiwm a chadw'r hyblygrwydd angenrheidiol.
- bydd angen rheoli unrhyw ddatblygiad o weithio ar y cyd yn ofalus, a bydd ymgynghori, cefnogi a chynllunio yn ofynnol. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw ddatblygiad o'r fath yn cael ei gyflwyno dros gyfnod realistig.
- y model a argymhellwyd yw'r un sydd fwyaf addas i'r consortiwm ar hyn o bryd.

1.3 Y Rhesymeg dros yr Argymhelliad

- Wrth asesu'r dewis mwyaf addas i'w argymell fel model llywodraethu, ystyriwyd nifer o feini prawf. Roedd y rhain yn cynnwys:
  - diwylliant ac ethos awdurdodau lleol, y consortiwm presennol a rhanddeiliaid
  - fframwaith cyfreithiol materion trefniadaeth ac AD
  - maint a graddfa swyddogaethau'r consortiwm
  - y gallu i'w cyflawni
  - atebolrwydd ac ymatebolrwydd
  - strwythurau ariannol a chyfreithiol
- Mae'r Cynllun Gweithredu yn darparu cynllun tair blynedd sy'n ddatblygiadol. Hefyd, mae'r gallu gan y model llywodraethu a chyfreithiol i ddatblygu tra bydd yn gweithredu fel model addas yn y tymor byr.

- **Gwelliant ar Drefniant Presennol y Consortiwm** yw'r Model Llywodraethu arfaethedig. Yn ogystal â'r cryfderau a amlinellir isod, ystyrir mai'r model hwn yw'r un mwyaf addas gan ei fod:
    - yn seiliedig ar berfformiad blaenorol ac yn medru cyflawni'r allbynnau a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn 1
    - yn dderbyniol i bob partner
    - yn cyflwyno'r atebolrwydd angenrheidiol
    - yn darparu gwerth am arian
    - yn cadw'r hyblygrwydd presennol er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol
    - yn rhoi'r cyfle i ystyried datblygiadau pellach
    - yn adeiladu ar arbenigaeth ac arfer cyfredol
    - yn bosib i'w gyflawni
    - yn rhoi llais i ddinasyddion drwy Aelodau Etholedig

1.4 Gwelliant ar Drefniant Presennol y Consortiwm

Parhad o drefniant presennol y Consortiwm yw'r Model Llywodraethu arfaethedig, gydag Awdurdod Arweiniol ar gyfer pwrpasau rheoli a gweinyddu, yn ogystal â chyd-bwyllgor annirprwyedig gyda chynrychiolaeth aelod o awdurdodau partner er dibenion craffu. Rhoddir mwy o fanylion yn y tabl canlynol.

Disgrifiad/Nodweddion	Cryfderau	Gwendidau
• Mae gan bartneriaid yr un targedau ac mae awdurdodau yn cytuno i weithio gyda'i gilydd ar yr un materion. • Mae un awdurdod yn arwain ar gyfer pwrpasau rheoli a gweinyddu. • Gellid dirprwyo swyddogaethau i'r consortiwm neu i un neu fwy o awdurdodau. • Bydd Cytundebau a Memoranda Dealltwriaeth wedi eu llofnodi'n sicrhau ymrwymiad a ffurfioldeb. • Gall cyd-bwyllgor annirprwyedig sydd â chynrychiolaeth aelodau o awdurdodau partner ffurfio ac argymell cynlluniau. • Mae Grŵp y Cyfarwyddwyr yn darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd corfforedig. • Mae'r Grŵp Strategol, gyda chynrychiolydd uwch gan bob awdurdod, yn darparu cyfarwyddyd a chefnogaeth strategol. • Cyflogir staff cefnogi'r consortiwm gan yr awdurdod arweiniol ond bydd apwyntiadau allweddol yn cael eu gwneud ar y cyd. • Gellir secondio aelodau eraill o'r staff, neu eu cytundebu yn hunangyflogedig. • Mae partneriaid yn ymrwymo arian, amser a/neu adnoddau. • Gellir rhannu neu gronni cyllidebau ar gyfer rhai pwrpasau. • Gellir penodi cyflenwyr ar y cyd • Dibynnol ar ymddiriedaeth ac ewyllys da.	• Adeiladu ar drefniadau cyd-weithio llwyddiannus ar draws y consortiwm ac o fewn y consortiwm. • Ymatebol, ac yn ymateb yn gyflym. • Hyblyg er mwyn ymateb i wahanol lefelau o weithio consortiwm. • Datblygiadol ac yn medru cefnogi'r cynllun gweithredu a'r stwythur. • Medru torri drwy dâp coch ac osgoi trafodaethau cyfreithiol hirfaith. • Osgoi'r angen am ystyried trosglwyddo staff a'r ddeddfwriaeth berthnasol. • Galluogi aelodau/gwleidyddion i gymryd rhan ac yn ychwanegu atebolrwydd. • Ychwanegu rhywfaint o ffurfioldeb i drefniadau sy'n bodoli eisoes heb golli ymddiriedaeth ac ewyllys da. • Hyblygrwydd staff wedi'u secondio a staff hunangyflogedig. • Medru cysylltu â'r bobl iawn ar yr adegau cywir. • Galluogi darbodion maint ac effeithlonrwydd.	• Mae'n bosibl fod diffyg eglurder a diogeledd o'i gymharu â modelau mwy ffurfiol. • Diffyg strategaeth ymadael yn bosibl, a gall hyn arwain at wrthdaro rhwng partneriaid. • Gall statws awdurdod arweiniol fod yn ddi-groeso wrth i atebolrwydd gynyddu. • Dibynnol ar bartneriaid i secondio staff addas. • Efallai y bydd rhaid i bwyllgor annirprwyedig gyfeirio at awdurdodau sy'n ei gynnal. • Er bod cytundebau yn ychwanegu at ffurfioldeb, mae dibyniaeth ar ymddiriedaeth ac ewyllys da yn parhau.

2. Strwythur Trefniadaeth a Rheoli

Datblygwyd y trefniadaeth a rheoli arfaethedig ar y cyd gyda'r model llywodraethu ac mae'n cefnogi rhoi'r Cynllun Gweithredu Thematig ar waith.

Craffu	**Grŵp yr Aelodau Etholedig** Y Rheiny â'r Portffolio ar gyfer Addysg			
Cyfarwyddyd ac arweinyddiaeth corfforedig a monitro	**Grŵp y Cyfarwyddwyr** 6 aelod: Cyfarwyddwr Addysg pob Awdurdod			
Arweinyddiaeth, cynllunio a monitro strategol	**Grŵp Rheoli Strategol** 6 aelod: swyddogion ail reng - un o bob awdurdod		**Grŵp y Penaethiaid** 30 aelod - 5 o bob awdurdod	
	Gweithrediadau Cydlynydd y Consortiwm			
	Cyflwyno	**Hyrwyddo**	**Broceriaeth**	**COGs** (Grwpiau Gweithredu'r Consortiwm)
Cynllunio gweithredol Gwerthuso gweithrediad	Personél a fydd yn darparu gwasanaethau'r consortiwm. Gall staff gael eu • cyflogi • secondio • neu gallant fod yn ymgynghorwyr Rôl • Cyflwyno gwasanaethau cytunedig ar draws y consortiwm • Cyfrannu tuag at ddatblygu a chynllunio'r Consortiwm	Personél a fydd yn hwyluso gweithio'r consortiwm. Gall staff gael eu • cyflogi • secondio Rôl • Hwyluso grwpiau gweithrediad • Hwyluso datblygiadau cytunedig • Adborthi i dîm y Consortiwm	Personél a fydd yn cynnal broceriaeth wasanaethau am angen a nodwyd gan awdurdodau lleol ac ysgolion. Gall staff gael eu • cyflogi • secondio Rôl • Cytuno ar anghenion gydag awdurdodau lleol neu ysgolion • Canfod a briffio'r darparwr • Cwestiynu ac ateb y darparwr gwasanaethau	Bydd personél yn arwain swyddogaethau gweithio'r consortiwm. Cyflogir staff gan bob awdurdod Rôl • Cyfrannu at waith y Consortiwm drwy: - gynrychioli barn eu hawdurdodau - gweithredu ar flaenoriaethau cytunedig
	Cefnogaeth			
Cefnogaeth	TGCh	Gweinyddol	Cyllid	Data AD Cyfrieithiol
	Rôl: Rhoi cefnogaeth i bob maes gwaith y Consortiwm			